

Adroddiad Arolygu Gwasanaeth Iechyd Meddwl Annibynnol (Dirybudd)

Ysbyty Aderyn, Elysium Healthcare

Dyddiad yr arolygiad: 10, 11 a 12 Mawrth 2025

Dyddiad cyhoeddi: 13 Mehefin 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-83715-816-4

© Hawlfraint y Goron 2025

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	14
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	21
4.	Y camau nesaf	24
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	25
	Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith.....	26
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	28

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad iechyd meddwl annibynnol dirybudd o Ysbyty Aderyn, ar 10, 11 a 12 Mawrth 2025.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau uwch-arolygydd gofal iechyd AGIC, tri adolygydd cymheiriaid clinigol (yr oedd un ohonynt yn adolygydd enwebedig o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl) ac un adolygydd profiad y claf. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o uwch-arolygwyr AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Ni chwblhawyd unrhyw holiadur gan gleifion na gofalwyr. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Dim ond pum holiadur a gafodd eu cwblhau gan y staff. Fodd bynnag, gwnaethom siarad â'r staff a gofalwyr yn ystod ein harolygiad ac mae rhai o'u sylwadau wedi'u nodi yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Dyweddodd pob un o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo'n ddiogel ac yn gallu siarad ag aelod o staff pan fo angen, a dywedwyd wrthym eu bod yn hapus yn yr ysbyty, a bod y staff yn garedig ac yn gymwynasgar.

Roedd gan y cleifion eu hystafelloedd gwely eu hunain, a oedd yn rhoi lefel dda o breifatrwydd iddynt, ac roedd hefyd yn helpu'r staff i gynnal urddas y cleifion. Fodd bynnag, roedd yr ystafelloedd gwely yn ymddangos wedi treulio ac roedd angen eu diweddarau.

Roedd amrywiaeth o weithgareddau ar waith i gefnogi ac ysgogi cleifion fel rhan o'u hadferiad. Roedd yn gadarnhaol gweld y staff yn cefnogi'r cleifion i gymryd rhan mewn gweithgareddau, fel grwpiau cerdded, teithiau pysgota, a chelf a chrefft. Nid oedd llawer o wybodaeth ar gael am hybu iechyd.

At ei gilydd, gwelsom fod y cleifion yn cael gofal amserol, a bod eu hanghenion yn cael eu hasesu'n brydlon wrth iddynt gael eu derbyn i'r ysbyty. Roedd y staff yn darparu gofal priodol ac yn helpu'r cleifion pan fo angen. Roedd y staff yn wybodus am bob claf ac yn ymdrechu i ddarparu gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn. Gwelsom garedigrwydd, cynhesrwydd a pharch rhwng y staff a'r cleifion.

Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion yn canmol y staff gan ddweud eu bod yn cael eu trin yn dda gan y staff a'u bod yn teimlo'n ddiogel. Yn ystod yr arolygiad, nodwyd bod y staff yn ymddwyn mewn ffordd gwrtais, ofalgar ac ymatebol pan fyddai'r cleifion yn mynd atynt. Drwy gydol yr arolygiad, gwelodd y tîm arolygu amgylchedd tawel, cynhwysol a phroffesiynol iawn yn yr ysbyty.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Llwybrau cerdded amrywiol
- Gwybodaeth hybu iechyd.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwaith tîm da a staff sy'n llawn cymhelliant
- Roedd y staff yn trin y cleifion â charedigrwydd a chynhesrwydd.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Ar y cyfan, gwelsom fod systemau a threfniadau llywodraethu priodol ar waith a oedd yn helpu i sicrhau bod y cleifion yn cael gofal diogel ac effeithiol. Roedd amrywiaeth o bolisiau iechyd a diogelwch cyfredol ar waith ac roedd amrywiaeth o asesiadau risg wedi cael eu cwblhau, fel asesiadau risg ar gyfer pwyntiau clymu ac asesiadau risg tân. Gwelsom hefyd dystiolaeth bod archwiliadau clinigol yn cael eu cynnal, a oedd yn cael eu monitro gan reolwr y ward.

Roedd prosesau priodol ar waith i sicrhau bod y staff yn diogelu oedolion agored i niwed a phlant, gydag achosion yn cael eu hatgyfeirio at asiantaethau allanol yn ôl y gofyn. Roedd gweithdrefnau diogelu, wedi'u cefnogi gan Weithdrefnau Diogelu Cymru, ar gael i staff yr ysbyty eu gweld.

Gwelsom fod y trefniadau ar gyfer rheoli meddyginiaethau a'u storio'n ddiogel yn briodol.

Roedd cofnodion y cleifion yn drefnus, a gwnaed gwelliannau mewn perthynas â chofnodion y cleifion ers ein harolygiad diwethaf. Roedd data'r cleifion a'u cofnodion yn cael eu storio'n ddiogel.

Gwelsom drefniadau cynllunio gofal da a oedd yn adlewyrchu meysydd Mesur Cymru. Roedd y cynlluniau gofal yn fanwl iawn, wedi'u teilwra at yr unigolyn ac yn adlewyrchu amrywiaeth eang o elfennau lle roedd y tîm amlddisgyblaethol yn cael ei gynnwys. Roedd dystiolaeth glir wedi'i dogfennu hefyd bod y cleifion a'u teuluoedd yn cael eu cynnwys.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Décor a'r llawr yn yr ystafelloedd gwely.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Trefniadau cynllunio gofal o safon dda
- Amrywiaeth o archwiliadau effeithiol a gynhelir gan y staff.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom dîm o staff cyfeillgar a phroffesiynol a oedd yn ymrwymedig i ddarparu gofal o ansawdd uchel i'r cleifion. Roedd y staff, rheolwr yr ysbyty a'r tîm amlldisgyblaethol yn dangos arweinyddiaeth ymroddedig a brwdfrydig.

Roedd strwythur sefydliadol amlwg ar waith, a oedd yn cynnig llinellau rheoli ac atebolrwydd clir. Roedd systemau effeithiol yn darparu mynediad at gymorth gan y tîm rheoli yn ystod y dydd, gyda system ar alwad ar waith yn ystod y nos. Roedd y staff o'r farn bod y diwylliant yn yr ysbyty yn gadarnhaol, ac y byddent yn teimlo'n hyderus yn codi pryder a'u bod yn gwybod sut i wneud hynny, a gwelsom dystiolaeth i gadarnhau hyn.

Roedd y rhan fwyaf o'r staff yn canmol y cymorth gan gydweithwyr a oedd yn gweithio yn yr ysbyty, gan gyfeirio at ethos da o weithio fel tîm.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Adolygu polisiau er mwyn defnyddio'r ystafell lliniaru a'r prosesau recriwtio.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd rheolwr yr ysbyty, rheolwr y ward a'r tîm amlldisgyblaethol yn darparu arweinyddiaeth gadarn i'r staff
- Roedd cyfarfodydd staff a chleifion yn cael eu cynnal yn rheolaidd
- Roedd ffigurau cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol yn dda.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Gwnaethom ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion ac aelodau o'u teulu/eu gofalwyr yn ystod yr arolygiad er mwyn cael gwybod eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn yr ysbyty a'u profiadau ohono. Fodd bynnag, ni chawsom unrhyw ymatebion.

Dywedodd y cleifion a pherthnasau/gofalwyr y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad wrthym fod y cleifion yn cael eu trin yn dda, a bod y staff yn garedig ac yn barod i helpu.

Roedd amrywiaeth o gyfleusterau ar gael yn yr ysbyty er mwyn helpu i ddarparu therapïau a gweithgareddau i'r cleifion. Yn ogystal, mae'r cleifion hynny sydd wedi'u hawdurdodi i adael yr ysbyty yn cael cyfleoedd rheolaidd i ddefnyddio gwasanaethau cymunedol. Fodd bynnag, gellid gwella'r wybodaeth a roddir i'r cleifion am hybu iechyd a rhoi'r gorau i smygu gan nad oedd llawer o wybodaeth wedi'i harddangos.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth am hybu iechyd a rhoi'r gorau i smygu wedi'i harddangos.

Gwelsom y cleifion yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau drwy gydol yr arolygiad. Roedd y rhain yn cynnwys gweithgareddau cerdded, teithiau pysgota a chelf a chrefft. Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn mwynhau'r sesiynau y mae'r adran therapi galwedigaethol a'r cydgysylltydd gweithgareddau yn eu trefnu. Fodd bynnag, dywedodd rhai o'r cleifion wrthym yr hoffent fynd i gerdded ar hyd mwy o lwybrau amrywiol gan eu bod yn dechrau diflasu ar gerdded ar hyd yr un llwybrau o hyd.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y gweithgareddau'n addas ar gyfer pob claf a'u bod yn ddigon amrywiol.

Roedd gweithwyr proffesiynol eraill, fel ffisiotherapyddion a deietegwyr, ar gael i'r cleifion yn seiliedig ar eu hanghenion. Roedd meddyg teulu, deintydd, a gweithwyr iechyd corfforol proffesiynol eraill ar gael i'r cleifion hefyd, fel y bo angen. Roedd cofnodion y cleifion yn dangos bod asesiadau corfforol priodol yn cael eu cynnal a bod prosesau monitro parhaus ar waith.

Urddas a pharch

Gwelsom fod y staff yn ymgysylltu â'r cleifion mewn modd priodol, ac yn eu trin ag urddas a pharch. Roedd hyn yn cynnwys staff yr ysbyty, uwch-reolwyr a staff gweinyddol.

Roedd cyfleusterau ensuite yn ystafell pob claf. Roedd ystafelloedd ymolchi cymunedol ar gael, a gwelsom y staff yn parchu preifatrwydd y cleifion drwy gnocio ar ddrysau'r ystafelloedd gwely a'r ystafelloedd ymolchi cyn mynd i mewn.

Roedd pwyntiau galw am nyrs ar gael o gwmpas yr ysbyty ac yn ystafelloedd gwely ac ystafelloedd ymolchi'r cleifion, er mwyn i'r cleifion allu galw am help pe bai angen.

Roedd y cleifion yn gallu personoli eu hystafelloedd a storio eu heiddo personol. Roedd asesiadau risg yn cael eu cynnal ar gyfer pob eitem bersonol er mwyn helpu i gynnal diogelwch pob claf. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio ffonau symudol a dyfeisiau electronig personol eraill. Roedd ffôn hefyd ar gael i'r cleifion ei ddefnyddio i gysylltu â ffrindiau neu deulu pe byddai angen, ac roedd dyfeisiau electronig ar gael yn yr ysbyty i'r cleifion eu defnyddio.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn frwdfrydig am eu rolau a'r modd roeddent yn cefnogi'r cleifion ac yn gofalu amdanynt. Gwelsom fod y rhan fwyaf o'r staff yn cymryd amser i siarad â'r cleifion ac i fynd i'r afael ag unrhyw anghenion neu bryderon a oedd ganddynt. Roedd hyn yn dangos agweddau ymatebol a gofalgarn gan y staff tuag at y cleifion.

Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion

Roedd yr hysbysfyrddau i gleifion a oedd i'w gweld yn yr ysbyty yn cynnwys gwybodaeth berthnasol er mwyn helpu'r cleifion a'u teuluoedd i ddeall eu gofal. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth megis yr amserlen weithgareddau wythnosol a gwasanaethau eirioli.

Roedd tystysgrifau cofrestru gan AGIC a gwybodaeth am sut i wneud cwyn i'w gweld yn y dderbynfa. Roedd y wybodaeth hon hefyd ar gael yn Gymraeg.

Roedd gwybodaeth am sut i wneud cwyn i'w gweld ar yr hysbysfyrddau ac ar gael yn y canllaw i gleifion.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd pob un o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo'n ddiogel ac yn gallu siarad ag aelod o staff pan fydd angen. Gwnaethant hefyd ddweud eu bod yn hapus yn yr ysbyty, a bod y staff yn garedig ac yn barod i'w helpu. Roedd parch amlwg a chydberthnasau cryf rhwng y staff, y cleifion a'u perthnasau/gofalwyr.

Drwy gydol yr arolygiad, gwelsom y staff yn ymgysylltu ac yn cyfathrebu mewn ffordd gadarnhaol a sensitif â'r cleifion, gan gymryd amser i'w helpu i ddeall eu gofal, a defnyddio iaith neu ddulliau cyfathrebu priodol.

Clywsom fod rhai aelodau o staff dwyieithog (Cymraeg a Saesneg) yn gweithio yn yr ysbyty. Roedd hyn yn galluogi'r staff i roi'r cynnig rhagweithiol ar gyfer siarad â'r cleifion yn Gymraeg ar waith. Dywedwyd wrthym fod gwasanaethau cyfieithu ar gael hefyd pe byddai angen i gleifion gyfathrebu mewn ieithoedd eraill heblaw Cymraeg neu Saesneg.

Lle bo hynny'n gymwys, gall y cleifion gael cymorth gan gyrff allanol, fel cyfreithwyr neu wasanaethau eirioli i gleifion yn ystod cyfarfodydd cleifion penodol. Gyda chytundeb y cleifion, a lle bynnag y bo'n bosibl, roedd eu teuluoedd neu eu gofalwyr yn cael eu cynnwys yn y cyfarfodydd hyn.

Roedd yr hysbysfyrddau i gleifion a oedd i'w gweld yn cynnwys gwybodaeth berthnasol er mwyn helpu'r cleifion a'u teuluoedd i ddeall eu gofal. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth megis yr amserlen weithgareddau wythnosol a gwybodaeth am wasanaethau eirioli.

Roedd gwybodaeth ddwyieithog am AGIC a phroses Gweithio i Wella GIG Cymru i'w gweld hefyd.

Cynllunio a darparu gofal

Roedd gan y cleifion eu cynllunydd gweithgareddau wythnosol eu hunain, gan gynnwys sesiynau unigol a sesiynau grŵp yn yr ysbyty ac yn y gymuned (os oeddent wedi cael yr awdurdod priodol i wneud hynny). Yn ystod yr arolygiad, gwelsom y staff a'r cleifion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau yn yr ysbyty ac yn y gymuned.

Gwelsom y staff yn parchu preifatrwydd y cleifion. Er enghraifft, drwy ddeall pan oedd yn well gan y cleifion gael llonydd a hwyluso hyn, ond gan ar yr un pryd gynnal lefelau arsylwi priodol.

Roedd y cleifion yn cael eu cynnwys yn llawn mewn adolygiadau amlddisgyblaethol misol. Gwelsom dystiolaeth fod cynlluniau gofal yn canolbwyntio ar yr unigolyn a

bod cymorth yn cael ei roi mewn ffordd strwythuredig er mwyn galluogi cleifion i gyflawni eu nodau unigol. Roedd y cynlluniau gofal yn fanwl iawn ac wedi'u personoli, a oedd yn helpu'r ysbyty i ddarparu gofal cynhwysfawr i'r cleifion.

Roedd cyfarfod trosglwyddo yn cael ei gynnal bob bore yn ystod yr wythnos i'r staff nysio roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r tîm amlddisgyblaethol am unrhyw bryderon, materion neu ddigwyddiadau a oedd wedi codi yn ystod y diwrnod blaenorol. Gwnaethom fynychu cyfarfod trosglwyddo yn ystod yr arolygiad a gwelsom fod y staff yn deall y cleifion roeddent yn gofalu amdanynt yn dda, a bod y trafodaethau yn canolbwyntio ar yr hyn a fyddai orau i'r claf unigol.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Gwelsom fod trefniadau da ar waith i hyrwyddo a diogelu hawliau'r cleifion.

Roedd cyfleusterau ar gael i'r cleifion weld eu teuluoedd yn breifat. Roedd ystafelloedd hefyd ar gael i'r cleifion dreulio amser ar wahân i'r cleifion eraill yn unol â'u hanghenion a'u dymuniadau.

Roedd y ddogfennaeth gyfreithiol yn ymwneud â chadw cleifion o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. Roedd gwasanaethau eirioli ar gael i bob claf, a dywedwyd wrthym fod eiriolwyr yn ymweld â'r ysbyty.

Dywedodd y staff wrthym fod cleifion yn cael eu gwahodd i fod yn rhan o gyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol ar eu cyfer a bod aelodau o'r teulu neu eiriolwyr yn cael eu hannog i gymryd rhan lle y bo'n bosibl.

Yn ystod ein trafodaethau â'r staff, gwnaethant ddangos eu bod yn rhoi sylw priodol i gynnal hawliau'r cleifion a dewisiadau cleifion unigol. Roedd y cynlluniau gofal a thriniaeth a welsom yn dangos bod anghenion cymdeithasol, diwylliannol ac ysbrydol y cleifion wedi cael eu hystyried. Gwelsom fod gan yr ysbyty bolisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant priodol a oedd ar gael i helpu i sicrhau bod cydraddoldeb ac amrywiaeth y cleifion yn cael eu parchu.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Roedd cyfarfodydd cleifion ac arolygon cleifion yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn galluogi'r cleifion i roi adborth ar y gofal a ddarperir yn yr ysbyty. Roedd gwybodaeth ar gael hefyd i berthnasau a gofalwyr ynghylch sut i roi adborth.

Roedd polisi a gweithdrefn ar waith ar gyfer ymdrin â chwynion. Roedd y polisi yn cynnig strwythur ar gyfer ymdrin â phob cwyn yn yr ysbyty. Roedd yn amlwg bod person annibynnol yn cael ei bennu i ymchwilio i gwynion a bod camau yn cael eu

cymryd yn unol â pholisi cwynion y darparwr cofrestredig er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â chwynion yn briodol.

Gwnaethom edrych ar sampl o gwynion ffurfiol ac anffurfiol. Cadarnhawyd bod yr ysbyty wedi ymdrin â nhw yn unol â pholisi cwynion y sefydliad.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Gofal Diogel

Yr Amgylchedd

Ar y cyfan, cawsom sicrwydd bod gan Ysbyty Aderyn brosesau ar waith i reoli ac adolygu risgiau er mwyn helpu i gynnal iechyd a diogelwch cleifion, staff ac ymwelwyr yn yr ysbyty. Roedd mynedfa'r ysbyty wedi'i chloi er mwyn atal mynediad heb awdurdod. Roedd grisiau yn arwain at y brif fynedfa y tu allan, ond roedd ramp hygyrch ar gael ar ochr yr eiddo. Roedd y prif adeilad wedi'i rannu dros ddau lawr ac roedd lifft a lifft risiau ar gael i helpu pobl oedd ag anawsterau symudedd.

Roedd yn gadarnhaol gweld bod gwelliannau wedi'u gwneud i'r amgylchedd ers yr arolygiad diwethaf; fodd bynnag, mae angen gwella rhai meysydd. Er enghraifft:

- Nid oedd rheilen ar y grisiau, roedd llwch arnynt ac roedd y paent wedi plicio.
- Mae'r llawr yn yr ystafelloedd gwely wedi gwisgo ac mae angen diweddarau'r ystafelloedd hynny.
- Mae angen ail-baentio'r lolfa goffi, ac mae angen trwsio'r toiled i gleifion nad yw'n gweithio.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff y materion amgylcheddol eu datrys.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd system electronig ar waith ar gyfer cofnodi, adolygu a monitro digwyddiadau diogelwch cleifion a chadarnhaodd y staff fod cyfarfodydd ôl-drafod yn cael eu cynnal yn dilyn unrhyw ddigwyddiadau.

Roedd amrywiaeth o bolisiau iechyd a diogelwch cyfredol ar waith, a gwelsom dystiolaeth bod amrywiaeth o asesiadau risg wedi cael eu cynnal, gan gynnwys asesiadau risg ar gyfer pwyntiau clymu ac asesiadau risg tân. Roedd rheolwr yr ysbyty yn adolygu ac yn diweddarau'r asesiad risg cyfredol ar gyfer pwyntiau clymu ar adeg yr arolygiad. Mae'n bwysig bod yr asesiad risg hwn yn cael ei ddiweddarau a'i gwblhau'n llawn.

Dywedwyd wrthym am y gwiriadau amgylcheddol sy'n cael eu cwblhau a gwelsom dystiolaeth o'r gwiriadau wythnosol a gynhelir gan y rheolwr ym mhob rhan o'r ysbyty. Gwelsom dystiolaeth bod archwiliadau clinigol cynhwysfawr yn cael eu cynnal, a'u monitro gan y staff.

Roedd cynllun parhad busnes ar waith i'w ddilyn pe byddai digwyddiad difrifol yn yr ysbyty. Roedd y rhain yn cynnwys digwyddiadau fel tân, colli cyflenwad dŵr a thrydan a thywydd difrifol. Roedd yr holl bolisiâu diogelwch tân yn gyfredol ac roedd yr holl asesiadau risg tân wedi cael eu cwblhau.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod trefniadau atal a rheoli heintiau addas ar waith a oedd wedi'u cefnogi gan amrywiaeth o bolisiâu cyfredol i gynnal diogelwch y cleifion a'r staff. Roedd archwiliadau rheolaidd wedi cael eu cwblhau o'r ysbyty er mwyn adolygu glendid yr amgylchedd a sicrhau cydymffurfiaeth â gweithdrefnau'r ysbyty. Roedd pob un ohonynt yn briodol ac roedd uwch-staff y ward yn gwirio'r lefelau cydymffurfiaeth. Roedd lefel gydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant atal a rheoli heintiau gorfodol yn 93%.

Gwelsom dystiolaeth i gadarnhau bod y staff wedi cynnal yr asesiadau risg angenrheidiol a bod y polisiâu a'r gweithdrefnau perthnasol wedi cael eu diweddarau'n briodol. Esboniodd y staff eu cyfrifoldebau hefyd yn unol â'r canllawiau atal a rheoli heintiau.

Gwelsom fod digon o gyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael i'r staff a'u bod yn ei ddefnyddio'n briodol. Dywedodd y staff wrthym fod PPE ar gael yn hwylus iddynt bob amser, a gwelsom fod digon o gyfleusterau golchi a sychu dwylo a diheintio ar gael.

Roedd y cyfarpar glanhau wedi'i storio'n ddiogel a'i drefnu'n briodol ac roedd trefniadau addas ar waith i waredu gwastraff domestig a chlinigol.

Maeth

Roedd yr ysbyty yn darparu prydau bwyd rheolaidd i'r cleifion, ac roeddent yn dewis o fwydlenni a oedd yn newid bob wythnos.

Roedd y cleifion yn cael cymorth i ddiwallu eu hanghenion deietegol, a dywedwyd wrthym fod gofynion deietegol penodol yn cael eu bodloni fel y bo'n briodol.

Roedd yr ardaloedd bwyta yn lân ac yn daclus ac yn cynnig amgylchedd addas i'r cleifion fwyta eu prydau.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd y cofnodion meddyginiaeth yn fanwl ac yn gyflawn. Caiff meddyginiaethau'r cleifion eu trafod yn rheolaidd â nhw, a gwelsom archwiliadau a oedd yn cyrraedd y safonau ar gyfer meddyginiaeth. Fodd bynnag, roedd taflenni gwybodaeth i gleifion ar goll o'r ffeiliau meddyginiaeth.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod taflenni gwybodaeth i gleifion wedi'u cynnwys yn y ffeiliau meddyginiaeth.

Roedd y staff yn sicrhau bod gan y cleifion gynlluniau rheoli meddyginiaethau wedi'u personoli, a'u bod yn cynnwys y cleifion yn y gwaith cynllunio a'r trafodaethau.

Roedd tymheredd yr oergell feddyginiaeth a'r ystafelloedd clinig yn cael ei wirio'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu storio ar y tymheredd cywir. Roedd yr ardal glinigol yn lân, yn daclus ac yn drefnus.

Roedd y staff yn wybodus ac yn hyderus wrth roi meddyginiaeth. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd un o'r presgripsiynau brys wedi cael ei lofnodi gan y rhagnodydd. Ymdriniwyd â'r mater hwn gan reolwr y ward ac fe'i datryswyd ar unwaith (Gweler Atodiad A).

Roedd yn gadarnhaol gweld bod dosau uchel o feddyginiaeth gwrthseicotig yn cael eu monitro, eu hadolygu a'u lleihau.

Roedd gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal ar y cyfarpar adfywio a'r cyfarpar brys, ac roedd y staff yn dogfennu'r gwiriadau hyn er mwyn sicrhau bod y cyfarpar ar gael ac yn gyfredol.

Roedd y Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth a welsom wedi'u cwblhau'n llawn gan y staff.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Roedd prosesau priodol ar waith i sicrhau bod y staff yn diogelu oedolion agored i niwed a phlant, gydag achosion yn cael eu hatgyfeirio at asiantaethau allanol yn ôl y gofyn.

Roedd prosesau diogelu'r bwrdd iechyd, wedi'u cefnogi gan Weithdrefnau Diogelu Cymru, ar gael i staff yr ysbyty eu gweld drwy'r fewnrwyd. Cadarnhaodd uwch-aelodau o staff y ward eu bod yn hyderus bod staff yn ymwybodol o'r weithdrefn gywir i'w dilyn pe bai ganddynt bryder yn ymwneud â diogelu. Yn ystod ein

trafodaethau â'r staff, roeddent yn gallu dangos gwybodaeth am y broses ar gyfer atgyfeirio achos diogelu.

Roedd yr ysbyty yn cyflogi gweithiwr cymdeithasol dynodedig a oedd yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol â phartneriaid amlasiantaethol ac yn cydweithio â'r tîm staffio i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth yr aelodau o faterion diogelu.

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Roedd archwiliadau clinigol rheolaidd yn cael eu cynnal yn yr ysbyty a gwelsom dystiolaeth bod cyfarpar adfywio yn cael ei archwilio'n wythnosol, a bod y staff yn dogfennu pob digwyddiad i sicrhau bod y cyfarpar ar gael ac yn gyfredol.

Roedd yr archwiliadau hyn yn cynnwys gwirio bod y cyfarpar yn gweithio a'r dyddiadau gorffen, a sicrhau bod yr holl eitemau angenrheidiol ar gael, a bod y cyfarpar yn cael ei storio'n gywir. Mae'r broses fanwl hon yn helpu i sicrhau bod y cyfarpar ar gael ar gyfer argyfyngau yn ogystal â sicrhau diogelwch y cleifion. Nodwyd bod y defnydd o luniau i helpu'r staff i gynnal gwiriadau ar y bag parod yn arfer canmoladwy.

Yn ystod trafodaethau â'r staff, roedd yn glir eu bod yn ymwybodol o leoliadau torwyr clymau i'w defnyddio mewn argyfwng.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Ar y cyfan, gwelsom fod trefniadau llywodraethu priodol ar waith a oedd yn helpu i sicrhau bod y staff yn rhoi gofal diogel a chlinigol effeithiol i'r cleifion.

Cadarnhaodd y staff fod sesiynau dadfriffio yn cael eu cynnal ar ôl digwyddiadau. Dangosodd y cyfarfodydd y gwnaethom eu mynychu a'r dystiolaeth a gafwyd yn ystod yr arolygiad fod digwyddiadau, atgyfeiriadau diogelu a'r defnydd o ymyriadau corfforol yn cael eu monitro a'u hadolygu.

Roedd trefniadau ar waith i rannu gwybodaeth a gwersi a ddysgwyd o gwynion a digwyddiadau â'r staff yn yr ysbyty a'r sefydliad yn fwy cyffredinol.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Yn ystod ein trafodaethau â'r staff a'r uwch-reolwyr, cawsom wybod am nifer o enghreifftiau lle roeddent yn adolygu'r gwasanaeth a ddarperir ac yn ystyried datblygu rhai agweddau ar yr ysbyty.

Mae'r ysbyty yn cynnal cyfarfod gofal ac ymgysylltu bob tri mis i drafod arolygon i ofalwyr ac arolygon i gleifion, ynghyd â'r llyfrynnau gwybodaeth i gleifion. Caiff y

llyfrynnau hyn eu rhannu a theuluoedd a gofalwyr y cleifion hynny sydd wedi rhoi cydsyniad.

Hefyd, roedd yr ysbyty wedi llunio cylchlythyr ar gyfer teuluoedd yn ddiweddar. Roedd y cylchlythyr hwn yn cynnwys manylion am hanes yr ysbyty a chyflwyniad i'r tîm o staff a dolenni defnyddiol ar gyfer gofalwyr.

Roedd rhwydwaith defnyddwyr y gwasanaeth wedi cael ei sefydlu a oedd yn rhoi cyfleoedd i gynrychiolwyr y cleifion gwrdd â chynrychiolwyr eraill o Elysium. Roedd y cyfarfodydd hyn yn cynnwys arbenigwyr ar faterion yn ymwneud â'r arferion lleiaf cyfyngol a chânt eu cynnal i gasglu barn y cleifion er mwyn gwella arferion ym mhob ysbyty.

Mae rheolwr yr ysbyty hefyd yn rhan o fforwm rheolwyr Cymru gyfan, lle bydd rheolwyr ysbytai yn dod at ei gilydd i drafod y gwersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau a newidiadau i bolisiau. Yna, bydd rheolwr yr ysbyty yn gweithredu ar y wybodaeth ac yn rhoi newidiadau ar waith i wella arferion yn yr ysbyty.

Rhoddodd rheolwr yr ysbyty wybod i ni am y cynlluniau i wella'r ardal garddwriaeth, y sied storio a'r ardal ysbrydol, gyda'r nod o ddarparu cyfleoedd gwaith go iawn i'r cleifion. Mae potensial mawr i ddatblygu'r gerddi yn yr ysbyty, yn enwedig yr ardal garddwriaeth. At hynny, nid yw'r ardaloedd awyr agored yn cael eu defnyddio i'w llawn botensial i annog a darparu mwy o amrywiaeth o weithgareddau ar gyfer y grŵp cleifion.

Technoleg rheoli gwybodaeth a chyfathrebu

Roedd y systemau cofnodion cleifion cyfrifiadurol wedi'u datblygu'n dda ac yn darparu gwybodaeth o ansawdd uchel am ofal cleifion unigol. Roedd y system yn gynhwysfawr ac yn hawdd ei defnyddio.

Roedd systemau electronig da ar waith ar gyfer cofnodi digwyddiadau, archwiliadau clinigol ac archwiliadau llywodraethu, adnoddau dynol a systemau eraill yr ysbyty, a oedd yn helpu wrth reoli a rhedeg yr ysbyty. Nododd y staff fod y system electronig yn gweithio'n dda.

Rheoli cofnodion

Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu cadw ar ffurf electronig. Roedd cyfrinair ar y system electronig er mwyn atal achosion o fynediad heb awdurdod ac unrhyw achosion o dor-cyfrinachedd.

Ar y cyfan, gwelsom fod systemau cadarn ar waith i sicrhau bod gwybodaeth bersonol am y cleifion a'r staff yn cael ei chadw'n ddiogel. Roedd fframwaith llywodraethu gwybodaeth ffurfiol ar waith ac roedd y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran cadw cofnodion cywir a sicrhau cyfrinachedd.

Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Gwnaethom adolygu dogfennau cadw statudol pum claf.

Gwelsom fod pob claf yn cael ei gadw'n gyfreithlon yn unol â'r ddeddfwriaeth a bod dogfennaeth dda yn cael ei chadw. Ar y cyfan, roedd y cofnodion a welsom yn drefnus, yn hawdd eu defnyddio ac yn cynnwys gwybodaeth fanwl a pherthnasol.

Roedd system effeithlon ac effeithiol ar waith gan weinyddydd y Ddeddf Iechyd Meddwl i gefnogi'r gwaith o fonitro ac adolygu gofynion cyfreithiol y ddeddf iechyd meddwl.

Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal

Gwnaethom edrych ar Gynlluniau Gofal a Thriniaeth pedwar claf a gwelsom drefniadau cynllunio gofal o safon dda. Roedd y cynlluniau gofal yn fanwl iawn, wedi'u teilwra at yr unigolyn ac yn adlewyrchu amrywiaeth eang o elfennau lle roedd y tîm amlddisgyblaethol yn cael ei gynnwys.

Roedd y gwaith monitro iechyd corfforol yn cael ei gofnodi'n gyson yng nghofnodion y cleifion a'i ymgorffori drwy ffeiliau'r cleifion, gan ddangos gwelliannau o'r arolygiad blaenorol.

Roedd y cynlluniau gofal yn gryno ac yn cynnwys asesiadau risg manwl a strategaethau rheoli risgiau. Roedd asesiadau risg yn cael eu cwblhau lle roedd newid yn ymddygiad y cleifion, ac roedd tystiolaeth bod adolygiadau rheolaidd yn cael eu cynnal.

Roedd y broses o reoli ymddygiadau'r cleifion yn cael ei hadlewyrchu yn eu cynlluniau gofal a'r proffil rheoli risg, ac roedd hyfforddiant ar gael i'r staff i ddefnyddio sgiliau i reoli sefyllfaoedd anodd a'u tawelu. Roedd yn gadarnhaol gweld bod y cofnodion clinigol yn dangos yn glir fod y cleifion a'u teuluoedd yn rhan o'r trafodaethau gofal a oedd yn canolbwyntio ar y claf.

Roedd y cynlluniau gofal hefyd yn dangos cyfraniad gan y teulu a'r claf, yn ogystal â llais y claf, gan ddarparu dealltwriaeth gynhwysfawr er mwyn helpu'r staff i gefnogi'r cleifion.

Fodd bynnag, o edrych ar rai o gofnodion y cleifion, roedd yn anodd pennu p'un a oedd cydgysylltwyr gofal a gofalwyr wedi cael eu gwahodd i rowndiau ward ac adolygiadau o'r Cynllun Gofal a Thriniaeth ai peidio.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gwahoddiadau i gydgysylltwyr gofal a'u presenoldeb yn y rowndiau ward yn cael eu cofnodi yng nghofnodion y cleifion.

Gwelsom fod y systemau cynllunio i ryddhau cleifion yn cael eu hystyried, a bod archwiliadau cyson yn cael eu cynnal ar gofnodion y cleifion.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan Staff

Gwnaethom wahodd y staff i gwblhau holiaduron AGIC ar ôl yr arolygiad er mwyn cael gwybod eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn yr ysbyty. Cawsom gyfanswm o bum ymateb gan aelodau o staff yn y lleoliad. Gwnaethom hefyd siarad ag aelodau o'r staff yn ystod yr arolygiad.

Dywedodd y staff wrthym fod diwylliant yr ysbyty yn gadarnhaol, ac y byddent yn teimlo'n hyderus yn codi pryder a'u bod yn gwybod sut i wneud hynny.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Roedd strwythur sefydliadol clir ar waith, a oedd yn cynnig llinellau rheoli ac atebolrwydd clir. Roedd y trefniadau hyn wedi'u diffinio yn ystod y dydd, ac roedd systemau ar gyfer uwch-reolwyr a gwasanaeth ar alw ar waith ar gyfer y shift nos.

Roedd yn galonogol gweld uwch-aelodau o staff yn cyrraedd pan gawsant wybod bod y tîm arolygu wedi cyrraedd, a'u bod wrth law i roi cymorth ychwanegol i'r staff.

Roedd staff yr ysbyty yn dangos arweinyddiaeth glir, ymroddedig a brwdfrydig, ac yn cael eu cefnogi gan dimau amlddisgyblaethol llawn ymrwymiad a rheolwr yr ysbyty. Roedd y staff yn gallu disgrifio eu rolau ac roeddent yn ymddangos yn wybodus am anghenion gofal y rhan fwyaf o'r cleifion roeddent yn gyfrifol amdanynt.

Yn ystod ein hamser yn yr ysbyty, gwelsom ddiwylliant cadarnhaol a oedd yn cynnwys cydberthnasau da rhwng y staff y nodwyd gennym eu bod yn cydweithio'n dda fel tîm. Roedd y rhan fwyaf o'r staff yn gadarnhaol am yr arweinyddiaeth yn yr ysbyty. Roedd y rhan fwyaf o'r staff hefyd yn canmol y cymorth gan gydweithwyr a oedd yn gweithio yn yr ysbyty, gan gyfeirio at ethos da o weithio fel tîm yn yr ysbyty.

Roedd trefniadau ar waith i rannu gwybodaeth a gwersi a ddysgwyd o gwynion a digwyddiadau yn gyflym â'r staff yn yr ysbyty ac yn y sefydliad yn fwy cyffredinol. Roedd hyn yn helpu i gynnal diogelwch cleifion ac i wella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd polisi a gweithdrefn ar waith ar gyfer ymdrin â chwynion. Roedd y polisi yn rhoi strwythur i ddelio â phob cwyn yn yr ysbyty.

Gwelsom sampl o gwynion anffurfiol a ffurfiol gan nodi bod person annibynnol yn cael ei benodi i ymchwilio i gwynion. Roedd camau gweithredu yn cael eu cymryd yn unol â pholisi cwynion y sefydliad er mwyn sicrhau bod yr ysbyty yn ymdrin â chwynion yn briodol.

Roedd trefniadau ar waith i rannu gwybodaeth a gwersi a ddysgwyd o gwynion a digwyddiadau yn gyflym â'r staff yn yr ysbyty ac yn y sefydliad yn fwy cyffredinol. Mae hyn yn helpu i hybu diogelwch cleifion ac i wella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Siaradodd y staff y gwnaethom gyfnewid â nhw yn llawn angerdd am eu rolau, a thrwy gydol yr arolygiad gwelsom dîm cryf a chydlynol a oedd yn cydweithio.

Roedd y staff yn gallu cael gafael ar y rhan fwyaf o'r dogfennau y gwnaethom ofyn amdanynt mewn ffordd brydlon ac amserol, sydd felly'n dangos prosesau llywodraethu da.

Roedd systemau priodol ar waith i sicrhau bod y broses recriwtio yn un agored a theg. Cyn cyflogaeth, caiff geirdaon staff eu ceisio, cynhelir gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a chaiff cymwysterau proffesiynol eu cadarnhau.

Roedd aelodau newydd o staff ymgymryd â chyfnod sefydlu o dan oruchwyliaeth staff profiadol yn yr ysbyty. Dangosodd y staff dystiolaeth o hyn i ni hefyd a gwnaethant ddisgrifio'r broses sefydlu i ni.

Gwelsom dystiolaeth bod arfarniadau staff blynyddol wedi cael eu cynnal ynghyd â sesiynau goruchwyllo ac esboniodd y staff wrthym eu bod yn cael eu goruchwyllo'n rheolaidd.

Darparwyd amrywiaeth o bolisiau i ni yn ystod yr arolygiad, yr oedd y mwyafrif ohonynt yn gyfredol; fodd bynnag, roedd angen adolygu'r polisiau canlynol:

- Polisi recriwtio - dyddiad adolygu mis Hydref 2020
- Polisi ystafell lliniaru - dyddiad adolygu mis Mawrth 2024.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod polisiau yn cael eu hadolygu a'u diweddarau.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Cawsom restr o'r hyfforddiant staff gorfodol, ac roedd y ffigurau cydymffurfiaeth â hyfforddiant yn dda iawn, sef 97%. Roedd yn gadarnhaol gweld nad oedd unrhyw

ymyriadau corfforol wedi'u gwneud yn yr ysbyty yn y ddwy flynedd diwethaf. Mae hyn yn dangos bod yr ysbyty yn defnyddio'r model gofal lleiaf cyfyngol, gan ganolbwyntio ar ymgysylltiad therapiwtig rhwng y staff a'r cleifion, sydd wedi creu awyrgylch hamddenol.

Roedd yn gadarnhaol gweld bod y staff yn cael cyfleoedd hyfforddiant yn ychwanegol at hyfforddiant gorfodol. Er enghraifft, roedd y staff yn cael hyfforddiant ymwybyddiaeth o drawma, ac roedd disgwyl i reolwr y ward ddechrau ei hyfforddiant ar adnodd Recovery Star er mwyn helpu i wneud gwelliannau wrth reoli iechyd meddwl cleifion.

Roedd y lefelau staffio yn briodol i allu cadw'r cleifion yn ddiogel yn yr ysbyty ar adeg ein harolygiad. Clywsom fod staff asiantaeth yn cael eu defnyddio, ond y byddai'r ysbyty yn ceisio defnyddio staff banc neu staff asiantaeth a oedd yn gyfarwydd â gweithio yn yr ysbyty a gyda'r grŵp cleifion pan fyddai prinder staff.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Gwelsom nad oedd un o'r presgripsiynau brys wedi cael ei lofnodi gan y rhagnodydd.	Ni ddylai meddyginiaeth gael ei dosbarthu heb lofnod, a gall hyn arwain at gamgymeriadau	Ymdriniwyd â'r mater hwn gan reolwr y ward ac fe'i datryswyd ar unwaith.	Llofnodwyd y presgripsiwn a chafodd ei ddilysu

Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Ysbyty Aderyn

Dyddiad yr arolygiad: 10 - 12 Mawrth 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Nid oedd unrhyw faterion uniongyrchol yn ymwneud â diffyg cydymffurfio.					
2.					
3.					
4.					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Ysbyty Aderyn

Dyddiad yr arolygiad: 10 - 12 Mawrth 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater		Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Ychydig iawn o wybodaeth oedd i'w gweld am hybu iechyd a rhoi'r gorau i smygu.	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth am hybu iechyd a rhoi'r gorau i smygu wedi'i harddangos.	Gwybodaeth i gleifion	1. Caiff hysbysfwrdd ei osod yn yr ardal goffi i ddefnyddwyr y gwasanaeth a fydd yn cynnwys gwybodaeth am roi'r gorau i smygu a'r cymorth presennol sydd ar gael.	Carmel Gealy - Seicolegydd	30/05/25
				2. Caiff hysbysfwrdd ei osod yn yr ystafell fwyta a fydd yn cynnwys cyngor ar faeth a chynllunio bwydlenni.	Juliette Merrett - Therapydd Galwedigaethol	30/06/25

				3. Caiff gwybodaeth gyfredol am iechyd corfforol ac iechyd meddwl ei chynnwys mewn rhesel daflenni yn y coridor ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth.	Cyfarwyddwr yr Ysbyty - Jason Jones	30/05/25
2.	Dywedodd rhai o'r cleifion wrthym yr hoffent fynd i gerdded ar hyd mwy o lwybrau amrywiol gan eu bod yn dechrau diflasu ar gerdded ar hyd yr un llwybrau o hyd.	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y gweithgareddau'n addas ar gyfer pob claf.	Hybu Iechyd	1. Bydd cyfarfodydd cymunedol i ddefnyddwyr y gwasanaeth yn parhau i drafod 'syniadau ar gyfer gwneud pethau'n well' a 'gweithgareddau a digwyddiadau a gynllunnir.' 2. Caiff rhestr weithgareddau ei llunio a'i harddangos a bydd yn cynnwys teithiau cerdded lleol amrywiol.	Therapi Galwedigaethol - Juliette Merrett Therapi Galwedigaethol - Juliette Merrett	Eisoedd wedi'i roi ar waith 30/05/25
3.	Nid oedd rheilen ar y grisiau, roedd llwch arnynt ac roedd y paent wedi plicio. Mae'r llawr yn yr	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff y materion amgylcheddol eu datrys.	Yr Amgylchedd	1. Bydd y grisiau yn cael eu hadnewyddu 2. Caiff gwaith adnewyddu'r ystafelloedd gwely ei gynnwys yn y	Yr Adran Cynnal a Chadw Rheolwr Ystadau - Rob Howells / Cyfarwyddwr yr	30/05/25 30/03/26

	ystafelloedd gwely wedi gwisgo ac mae angen diweddaru'r ystafelloedd hynny. At hynny, mae angen ail-baentio'r lolfa goffi, ac mae angen trwsio'r toiled i gleifion nad yw'n gweithio.			Gwariant Cyfalaf ar gyfer Gorffennaf 2025 - Mehefin 2026	Ysbyty - Jason Jones	
				3. Bydd y lolfa goffi yn cael ei hail-baentio	Yr Adran Cynnal a Chadw	30/06/2025
				4. Mae rhan o'r cyfleuster cymunedol wedi cael ei thrwsio	Yr Adran Cynnal a Chadw	20/03/2025
4.	Roedd taflenni gwybodaeth i gleifion ar goll o'r ffeiliau meddyginiaeth.	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod taflenni gwybodaeth i gleifion wedi'u cynnwys yn y ffeiliau meddyginiaeth.	Cofnodion	1. Rhoddwyd y taflenni gwybodaeth i gleifion a oedd ar goll yn y ffeiliau meddyginiaeth yn ystod yr ymweliad. 2. Caiff y taflenni gwybodaeth i gleifion eu harchwilio bob penwythnos a'u cynnwys yn rhestr gwirio'r clinig.	Cyfarwyddwr yr Ysbyty - Jason Jones Rheolwr y Ward - Joceyln Fell.	13/03/25 Yn wythnosol
5.	O edrych ar rhai o gofnodion y cleifion, roedd yn anodd pennu p'un a oedd cydgysylltwyr gofal a gofalwyr wedi cael eu gwahodd i rowndiau	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gwahoddiadau i gydgysylltwyr gofal a'u presenoldeb yn y rowndiau ward yn cael eu cofnodi yng nghofnodion y cleifion.	Cofnodion	1. Mae'r rhai sydd wedi cael eu gwahodd wedi cael eu cofnodi drwy gyfathrebiadau e-bost hyd yma. Bydd fformatau cyfarfodydd Gofal a Thriniaeth/rowndiau ward yng nghofnodion	Cydgysylltydd Cynllunio Gofal a Thriniaeth - Alison Lewis Cyfarwyddwr yr Ysbyty - Jason Jones	30/05/2025

	ward ac adolygiadau o'r Cynllun Gofal a Thriniaeth ai peidio.			gofal y cleifion yn cynnwys rhestr o'r rhai sydd wedi cael eu gwahodd.		
6.	Nid oedd y polisi recriwtio na dyddiadau adolygu polisi defnyddio'r ystafell lliniaru yn gyfredol.	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y polisi recriwtio a'r polisi defnyddio'r ystafell lliniaru yn cael eu hadolygu a'u diweddarau	Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd	1. Mae'r polisi recriwtio wrthi'n cael ei adolygu gan yr adran Adnoddau Dynol corfforaethol. Disgwylir i'r polisi gael ei adolygu erbyn 09/05/2025 2. Mae'r polisi lliniaru wedi'i adolygu. I'w ddangos erbyn 16/05/25		16/05/2025 16/05/2025

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Jason Jones

Teitl swydd: Cyfarwyddwr yr Ysbyty

Dyddiad: 23/04/25